# Adroddiad Arolygu

**Euryl Thomas**

**Hendy-gwyn ar Daf**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

06/05/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad ôl-gofrestru cyntaf |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Mae'r plant wedi setlo ac yn cael cyfle da i wneud dewisiadau. Mae ganddynt gydberthnasau cryf â'r gwarchodwr plant ac maent yn rhyngweithio'n hyderus â hi. Mae'r plant yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth yn dda ac yn mwynhau dysgu drwy chwarae. Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei rôl i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach, ac mae'n rheoli'r rhyngweithio'n dda. Mae'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau gwahanol er mwyn sicrhau bod gan y plant le i chwarae'n rhydd. Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio geiriau Cymraeg yn effeithiol er mwyn sicrhau bod y plant yn ymddiddori. Mae'r amgylchedd yn gynnes, yn groesawgar ac yn addas ar gyfer anghenion y plant. Mae teganau ac adnoddau'n cynnig cyfleoedd dysgu i'r plant ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r lleoliad yn briodol ac mae wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni.

## Llesiant

Mae'r plant yn cyfleu eu hanghenion i'r gwarchodwr plant yn hyderus. Maent yn fwy na pharod i fynd at y gwarchodwr plant am faldod ac i gyfleu bod eisiau bwyd neu ddiod arnynt.  Mae'r gwarchodwr plant yn gwerthfawrogi ymdrechion y plant ac yn gwrando arnynt.  Er enghraifft, roedd y gwarchodwr plant yn parchu eu dewis i chwarae â gweithgaredd trefnu siapiau wrth iddynt fwyta eu cinio.  Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am eu chwarae. Maent yn helpu eu hunain i lyfrau, posau jig-so ac adnoddau chwarae rôl sydd ar gael iddynt yn hawdd.

Mae'r plant wedi setlo ac yn fodlon eu byd. Maent wrth eu bodd yn gweld y gwarchodwr plant, ac yn cael maldod ganddi, ar ôl bod yn cysgu. Mae'r plant wedi meithrin cydberthynas agos â'r gwarchodwr plant.  Maent yn eistedd gyda hi'n gyfforddus, yn gwrando ar ei straeon ac yn mwynhau'r maldod a roddir, ac weithiau byddant angen cael eu cysuro pan fyddant wedi cwympo neu pan fyddant wedi blino. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau â'i gilydd. Maent yn helpu plant iau eraill, gan roi diodydd a theganau iddynt. Mae gan y plant ymdeimlad cryf o berthyn, a gwnaethant ddweud wrthym yn hyderus pwy oedd yn cysgu ym mha wely.

Mae rhyngweithio'r plant yn dda. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r gwarchodwr plant ac maent yn mynd ati i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Er enghraifft, mae'r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau, ac maent yn dod â llyfrau i gael eu darllen iddynt.  Mae'r plant wrth eu bodd yn actio straeon o'r llyfrau gan ddefnyddio teganau meddal a phropiau. Mae'r plant yn gwrando'n astud ar y cyfarwyddiadau a roddir iddynt i'w cadw'n ddiogel. Er enghraifft, dod i lawr o sefyll ar y soffa yn barchus pan ofynnir yn garedig iddynt wneud hynny. Mae'r plant yn meithrin dealltwriaeth o rannu adnoddau, gan eu bod yn awyddus i rannu eu sbectol haul arbennig â'r oedolion a'r plant.

Mae'r plant yn frwdfrydig am eu cyfleoedd chwarae a dysgu ac yn dangos diddordeb ynddynt. Maent yn mwynhau symud o un ystafell i'r llall yn ddirwystr. Maent yn fwy na pharod i gychwyn eu chwarae eu hunain. Enghraifft dda o hyn yw pan fydd y plant yn chwarae â'r blwch chwarae rôl milfeddygol, lle dywedon nhw wrth y gwarchodwr plant “Mê-mê dost” a mynd ati i roi rhywfaint o eli i'r ddafad i'w roi ar ei bol. Gwrandawodd y plant ar stori'r Tri Mochyn Bach. Gwnaethant ailadrodd y geiriau, yr ymadroddion syml a synau'r anifeiliaid yn y stori yn llawn cyffro. Roedd y plant wrth eu bodd yn cyfrif o 1 i 10 gan ddefnyddio llyfr Cymraeg “Peppa 123”.  Roedd y plant yn mwynhau canu “Beth sydd yn y fasged siopa” a gwnaethant enwi bwydydd megis bara, banana a chacen yn annibynnol.

Mae gan y plant sgiliau annibyniaeth da, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain. Maent yn bwyta eu bwydydd bys a bawd yn annibynnol ac yn helpu eu hunain i'w poteli diod personol eu hunain. Mae'r plant yn helpu eu hunain i'w ffedogau a'u siwtiau gwlyb eu hunain ac yn eu dychwelyd heb unrhyw anogaeth.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau llesiant a diogelwch personol y plant. Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu ac mae'r gwarchodwr plant yn deall ei chyfrifoldebau i amddiffyn y plant. Ymatebodd yn addas i gwestiynau yn seiliedig ar ddiogelu a senarios yn ymwneud ag amddiffyn plant. Mae gan y gwarchodwr plant weithdrefnau glanhau dyddiol rheolaidd ar waith. Mae'n cynnig opsiynau iach i'r plant, gan gynnwys tost, uwd, ffrwythau ffres, bara, ham, pasta, iogwrt, llaeth a dŵr. Mae'r gegin yn weladwy lân. Fodd bynnag, ni wnaeth y gwarchodwr plant olchi ei dwylo ac nid anogwyd y plant i olchi eu dwylo cyn bwyta. Caiff y rhan fwyaf o weithdrefnau newid cewynnau eu dilyn. Fodd bynnag, nid oedd y gwarchodwr plant yn gwisgo menig wrth newid cewynnau yn unol â'i pholisi. Mae gan y gwarchodwr plant dystysgrif cymorth cyntaf pediatrig, tystysgrif diogelu a thystysgrif hylendid bwyd sydd i gyd yn gyfredol. Mae'n cofnodi manylion damweiniau a digwyddiadau, ac mae'r rhieni'n llofnodi'r rhain. Mae ffurflenni caniatâd meddyginiaeth wedi'u dyddio, ac mae'r rhain yn cynnwys amseroedd penodol a llofnodion. Fodd bynnag, nid yw'r gwarchodwr plant yn cofnodi anafiadau na dosau blaenorol.

Mae'r rhyngweithio rhwng y gwarchodwr plant a'r plant yn gyson gadarnhaol. Mae'n canmol y plant am fwyta eu bwyd. Mae'n sicrhau ei bod yn diwallu eu hanghenion ac yn ystyried eu diddordebau a'u dewisiadau'n llawn. Mae'r gwarchodwr plant yn ymateb yn brydlon os bydd y plant am fwyta'n ddigymell, ac mae'n diwallu eu hanghenion o ran gorffwys a chwarae. Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant ac mae'n deall eu hanghenion a'u personoliaethau unigol mewn ffordd gadarnhaol. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr iaith y mae'r plant yn ei siarad gartref yn cael ei hyrwyddo a'i datblygu drwy ganu, darllen a chwarae rôl. Mae'n dangos cynhesrwydd a charedigrwydd tuag at y plant yn ei gofal drwy roi maldod a meithrin cydberthynas agos, ac mae'n rhoi ei braich o'u cwmpas yn ystod amser stori ac amser tawel.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn cael profiadau eang. Er enghraifft, bod yn greadigol â phaent, printio, toes chwarae a chwarae blêr yn yr hambwrdd twff. Roedd gweithgareddau eraill cyn y pandemig yn cynnwys ymweld ag anifeiliaid ar y fferm deuluol a'u bwydo, ac ymweliadau lleol. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu trefn feunyddiol. Nid oes unrhyw waith cynllunio nac asesu. Fodd bynnag, mae'r gwarchodwr plant yn gwybod eu hanghenion datblygu.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd diogel i'r plant.  Mae'n cynnal gwiriadau diogelwch rheolaidd, ynghyd ag asesiadau risg o'r holl ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored. Mae wedi paratoi asesiadau risg yn ystod pandemig COVID-19, gan sicrhau bod mesurau rhagweithiol yn cael eu cymryd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw asesiadau risg ar gyfer tripiau na theithiau yn y car.  Mae'r drws ffrynt a giât yr ardd yn cael eu cadw ar glo pan fydd y plant yn y gwasanaeth.  Mae giât grisiau'n atal y plant rhag dringo'r grisiau, ac mae giard o flaen y lle tân. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal ymarferion tân rheolaidd ac yn gwirio'r larymau tân a mwg. Cynhelir y gwiriadau gwres yn rheolaidd.

Mae amgylchedd y cartref yn gynnes ac yn gyfforddus, ac mae mewn cyflwr da.  Mae'n darparu ardal olau ac eang i'r plant chwarae a dysgu. Caiff yr holl adnoddau chwarae a dysgu eu cadw'n ddigon isel i'r plant eu cyrraedd. Mae'r amgylchedd yn cynnwys dodrefn a chyfarpar o faint addas i gefnogi annibyniaeth y plant. Er enghraifft, cotiau teithio, cadeiriau uchel, bwrdd a chadeiriau o faint addas i blant, a chyfleusterau er mwyn helpu'r plant i ddysgu sut i ddefnyddio'r toiled. Mae'r toiledau a'r ardal newid cewynnau'n rhoi preifatrwydd ac urddas i'r plant.

Mae'r ystafell chwarae yn storio amrywiaeth eang o adnoddau ar gyfer oedran a chamau datblygu’r plant,  gan gynnwys posau jig-so, gemau, adnoddau chwarae rôl a gemau corfforol. Mae amrywiaeth o lyfrau Cymraeg a labeli lliwiau, dyddiau'r wythnos, rhifau a geiriau yn hyrwyddo'r Gymraeg. Mae ardal yn yr awyr agored i'r plant chwarae, gan gynnwys hambwrdd chwarae a dŵr wedi'i orchuddio, a siglenni. Gan fod y lleoliad yn y wlad, mae'r amgylched awyr agored yn cynnig cyfleoedd i ymweld ag anifeiliaid fferm, gan gynnwys cŵn, defaid, ceffylau a gwartheg.

## Arwain a Rheoli

Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu ei gwasanaeth yn effeithiol. Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau gofynnol ar waith ac yn adlewyrchu'r arferion cyfredol ar y cyfan. Mae gan y gwarchodwr plant ddatganiad o ddiben sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae gwiriadau gofynnol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ar gyfer pob aelod o'r cartref. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r niferoedd yn isel er mwyn cydymffurfio â'r cymarebau a sicrhau bod cyn lleied o risg â phosibl o groesheintio yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r cofnodion o'r plant sy'n mynychu'r gwasanaeth yn drefnus ac yn benodol iawn. Mae gan y gwarchodwr plant yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol ac mae wedi'i chofrestru â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth o'r ddyletswydd atal, ac mae ganddi bolisi diogelu ac amddiffyn plant. Mae'r lleoliad yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymarferydd gofal plant cymwysedig a phrofiadol, sy'n deall datblygiad plant ac yn diwallu anghenion y plant yn llawn. Yn y gorffennol, mae'r gwarchodwr plant wedi gwerthuso ei gofal er mwyn gwneud gwelliannau sy'n cynnwys barn y bobl sy'n defnyddio ei gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oes adroddiad diweddar ar ansawdd y gofal ar gyfer y gwasanaeth.

Mae polisi cwynion ar waith, er nad yw'n cynnwys manylion cyswllt cyfredol ar gyfer AGC. Mae ffeiliau'r plant yn cynnwys contractau, ffurflenni caniatâd a gwybodaeth i ofalu am y plant sy'n mynychu'r gwasanaeth.

Mae gan y gwarchodwr plant bartneriaethau cadarnhaol â'r rhieni. Cadarnhaodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a roddir. Dywedwyd eu bod yn cael diweddariadau drwy luniau mewn negeseuon preifat ac adborth ar lafar wrth gasglu eu plant. Cyn pandemig COVID-19, roedd y gwarchodwr plant wedi bod yn mynychu'r grŵp Cylch Ti a Fi lleol. Roeddent hefyd wedi bod allan i gaffis, atyniadau twristiaid a siopau yn yr ardal leol.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Cofnodi damweiniau a dosau o feddyginiaeth blaenorol.

A2. Golchi ei dwylo cyn paratoi prydau bwyd y plant ac annog y plant i olchi eu dwylo cyn bwyta.

A3. Dilyn yr holl bolisïau a gweithdrefnau cyfredol ar gyfer newid cewynnau.

A4. Llunio asesiad risg ar gyfer tripiau a theithiau yn y car.

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni** |
|---|

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau** | |
|---|---|
| Nid yw'r gwarchodwr plant wedi cwblhau adroddiad diweddar ar ansawdd y gofal. | Rheoliad 16 (2) (a) |

Mae angen gwella'r maes/meysydd a nodir uchod, ond nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ar yr achlysur hwn. Mae hyn am nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r darparwr cofrestredig gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/06/2021